# Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Papur gan Lais Defnyddwyr Cymru ar Dlodi Tanwydd yng Nghymru

### Diben

Yn gynharach eleni, cynhaliodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd ymchwiliad i Dlodi Tanwydd yng Nghymru. Gofynnwyd i Lais Defnyddwyr Cymru[1] baratoi papur diweddaru ar y sefyllfa bresennol yn dilyn datblygiadau diweddar, megis y cynnydd diweddaraf mewn prisiau ynni a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddefnyddwyr yng Nghymru.

Mae'r papur hwn yn dilyn tystiolaeth flaenorol a ddarparwyd gan Olwg ar Ynni Cymru, ac mae'n cynnwys canfyddiadau bras yr ymchwil defnyddwyr a gynhaliwyd gan Gyngor Defnyddwyr Cymru ym mis Mehefin 2008.

### Beth yw tlodi tanwydd?

Mae Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU yn datgan bod aelwyd mewn tlodi tanwydd os oes angen iddo wario mwy na 10% o'i incwm ar danwydd i gynnal gwres boddhaol (h.y. 21$^{o}$C yn yr ystafell fyw a 18$^{o}$C mewn ystafelloedd eraill a ddefnyddir).

Mae **tri** phrif ffactor yn cyfrannu at dlodi tanwydd – incwm yr aelwyd, statws effeithlonrwydd ynni'r eiddo a chost ynni.

Yr olaf o'r rhain sydd wedi bod yn bennaf gyfrifol am y nifer cynyddol o aelwydydd sydd wedi dioddef tlodi tanwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yng Nghymru, gwaethygir effaith costau ynni cynyddol gan:

incwm sy'n is na'r cyfartaledd;

cyfran uchel o adeiladau nad ydynt yn rhan o rwydwaith y prif gyflenwad nwy (19%)[2] ac sydd felly'n dibynnu ar danwydd gwresogi drud (megis olew domestig a nwy petrolewm hylifedig (LPG);

cyfran uchel o gartrefi sy'n 'anodd eu trin' (mae 32% wedi'u hadeiladu gyda waliau solet; mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru mae hyn yn codi i 37%; y ffigur cyfatebol ar gyfer Lloegr yw 27%)[3];

y ffaith fod defnyddwyr yng Nghymru yn talu hyd at 10% yn fwy am eu trydan na'r cyfartaledd yn Lloegr (De Cymru = 10%; Gogledd Cymru = 4%)[4] – costau cyflenwi uwch (h.y. taliadau grid a cholledion rhwydwaith) sy'n gyfrifol am tua hanner y pris ychwanegol hwn. Mae Ofgem yn parhau i ymchwilio i'r gwahaniaethau hyn mewn prisiau fel rhan o'u hymchwiliad i'r farchnad cyflenwi ynni.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn amcangyfrif bod tua un o bob pum aelwyd yng Nghymru (240,000 - 250,000) yn byw mewn tlodi tanwydd erbyn diwedd 2006[5] – sef dwywaith cymaint ag yn 2004. Mae amcangyfrifon mwy diweddar, yn dilyn cynnydd mewn prisiau ynni yn ystod 2008, yn rhagfynegi bod o leiaf 300,000 o aelwydydd yng Nghymru (25%) yn byw mewn tlodi tanwydd erbyn hyn. Mae Gweithredu Ynni Cenedlaethol (NEA) Cymru yn amcangyfrif y gallai'r ffigur fod mor uchel â 340,000 o aelwydydd – yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd 48,000 o aelwydydd ychwanegol yn cael eu hystyried fel bod yn dioddef o dlodi tanwydd am bob cynnydd o 10% mewn prisiau.

Mae'r cwymp yn yr economi a ddaroganwyd yn eang a'r cynnydd cysylltiedig mewn diweithdra a'r gostyngiad mewn incwm aelwydydd hefyd yn debygol o gael effaith ddifrifol ar ddefnyddwyr yng Nghymru, yn enwedig gan fod gennym ni un o'r cymarebau uchaf o ddyled o'i chymharu ag incwm yn y DU.

### Yr effaith ar ddefnyddwyr yng Nghymru

Mae'r effaith ganlyniadol ar aelwydydd sy'n dioddef o dlodi tanwydd yn debygol o fod yn ddifrifol. Pan fyddant yn wynebu biliau na allant fforddio eu talu, bydd rhai pobl yn teimlo nad oes ganddynt unrhyw ddewis ond mynd i ddyled. Yn ddiweddar, mae Canolfannau Cyngor ar Bopeth ledled Cymru a Lloegr wedi cyhoeddi cynnydd o 10% mewn dyledion tanwydd o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd (C2 2007/08)6.

Yn aml bydd pobl yn defnyddio ystod o strategaethau i'w helpu i ymdopi â'r sefyllfa. Gall yr angen i flaenoriaethu biliau olygu gorfod cwtogi ar hanfodion bob dydd eraill megis bwyd neu ddillad, bydd eraill yn defnyddio llai o ynni drwy fyw mewn dim ond un ystafell wedi'i gwresogi neu, os ydynt yn defnyddio mesurydd rhagdalu, maent yn fwy tebygol o ddatgysylltu'r cyflenwad eu hunain pan na fyddant yn gallu fforddio rhoi mwy o arian yn eu mesurydd.

Mae pobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd hefyd yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi, o fod wedi'u heithrio'n ariannol ac yn ddigidol (ac felly'n methu â manteisio ar ddebyd uniongyrchol a bargeinion ar-lein), o fyw mewn tai o ansawdd gwael a dioddef iechyd gwael. Yng Nghymru, gall tlodi tanwydd fod yn fwy o broblem i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig na'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd trefol.

Rydym hefyd yn gwybod mai'r rheiny sydd â'r angen mwyaf am gymorth yw'r rhai sy'n lleiaf tebygol o atgyfeirio eu hunain.

Darganfu ymchwil a gomisiynwyd ym mis Mehefin 2008 gan un o'n sefydliadau rhagflaenol, Cyngor Defnyddwyr Cymru[7], mai dim ond cyfran gymharol fechan o aelwydydd yng Nghymru "nad effeithiwyd arnynt" gan y cynnydd diweddar mewn costau ynni. Dim ond 28% a

ddywedodd nad oeddynt wedi profi unrhyw anawsterau wrth dalu eu biliau ac nad oeddynt yn poeni am eu talu yn y dyfodol.

Ar y llaw arall, dywedodd fwy na chwarter y bobl a gymerodd ran yn yr ymchwil (27%) eu bod naill ai wedi mynd i ôl-ddyledion, wedi cwtogi'n sylweddol ar bethau eraill neu wedi cael trafferth talu eu biliau ynni yn ystod y misoedd diwethaf.

Mae'r rheiny yr effeithiwyd arnynt fwyaf yn cynnwys pobl o'r dosbarthiadau cymdeithasol is (33%), y rheiny sy'n byw yng Ngogledd a Chanolbarth/Gorllewin Cymru (33% a 28%), y rheiny sydd â phlant ar yr aelwyd (34%) a phobl sy'n byw mewn llety ar rent (39%). Nid yw'n syndod bod mwy o aelwydydd sy'n defnyddio mesuryddion rhagdalu i dalu am eu nwy a'u trydan wedi cael trafferthion hefyd (54% a 49% yn ôl eu trefn).

Dywedodd 29% arall o'r bobl a gyfwelwyd ym mis Mehefin, er nad ydynt wedi cael unrhyw broblemau o ran talu eu biliau ynni yn ystod y misoedd diwethaf, eu bod yn pryderu am eu talu yn y dyfodol (roedd safbwyntiau o'r fath yn gyson ar draws pob dosbarth cymdeithasol; 34% o bobl 55 oed a hyn). Yn amlwg, ers i'r arolwg gael ei gynnal rydym wedi gweld cynnydd pellach mewn costau ynni, felly mae'n debygol y bydd hyd yn oed mwy o bobl yn cael trafferth talu eu biliau y gaeaf hwn.

### Prisiau ynni sy'n cynyddu

Ers mis Ionawr 2003, mae biliau nwy domestig cyfartalog (gan dalu trwy gredyd safonol) wedi cynyddu 169% a biliau trydan wedi cynyddu 92%.

Eleni yn unig, h.y. o fis Ionawr 2008 hyd y presennol, mae biliau nwy yn anhygoel wedi cynyddu 50% a thrydan 28%. Mae biliau cwsmeriaid tanwydd deuol wedi codi 41% yn ystod 2008.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y mae biliau cyfartalog yng Nghymru (ar gyfer cwsmeriaid defnydd cymedrol) yn cymharu â chyfartaledd y DU ar hyn o bryd (yn dilyn y cynnydd mewn prisiau yn ystod yr haf hwn).

### Tabl 1: Cymharu Prisiau Ynni (biliau cyfartalog defnydd cymedrol)

| **Nwy** | | |
|---|---|---|
| Dull talu: | Cyfartaledd Cymru: | Cyfartaledd y DU: |
| Debyd Uniongyrchol | £787 | £796 |
| Credyd safonol/Biliau chwarterol | £822 | £834 |
| Mesurydd rhagdalu | £846 | £846 |
| **Trydan** | | |
| Debyd Uniongyrchol | £470 | £444 |
| Credyd safonol/Biliau chwarterol | £494 | £468 |
| Mesurydd rhagdalu | £500 | £474 |
| **Tanwydd Deuol** | | |
| Debyd Uniongyrchol | £1,215 | £1,197 |

| | | |
|---|---|---|
| Credyd safonol/Biliau chwarterol | £1,298 | £1,283 |
| Mesurydd rhagdalu | £1,341 | £1,314 |

Ffynhonnell: Llais Defnyddwyr (Hydref 2008)

Mae'n bur debyg bod y cynnydd mewn prisiau nwy a thrydan wedi bod yn arbennig o andwyol i'r bobl sy'n defnyddio mesuryddion rhagdalu i dalu am eu tanwydd (tua 222,000 o gwsmeriaid trydan a 140,000 o gwsmeriaid nwy yng Nghymru). Fel y nodwyd eisoes, hyd yn oed cyn y cynnydd diweddaraf mewn prisiau, roedd llawer o gwsmeriaid mesuryddion rhagdalu yng Nghymru yn dweud eu bod yn cael trafferthion.

Amcangyfrifir bod cwmnïau ynni yn cynhyrchu mwy na £540miliwn y flwyddyn mewn refeniw ychwanegol gan gwsmeriaid mesuryddion rhagdalu nag y byddent petai'r cwsmeriaid hynny'n talu trwy dariffau debyd uniongyrchol ar-lein – hyd yn oed o ystyried y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweithredu mesuryddion o'r fath.

Mae hyn 10 gwaith yn fwy na'r hyn y mae cyflenwyr yn ei wario ar hyn o bryd ar dariffau cymdeithasol (£50m) ac yn fwy na theirgwaith cymaint â'u bwriad i wario £150m ar dariffau cymdeithasol erbyn 2010/11.

### Datblygiadau diweddar

### Ymchwiliad Ofgem i'r Farchnad Cyflenwi Ynni

Ar 6 Hydref 2008 cyhoeddodd Ofgem ganfyddiadau cychwynnol ei Ymchwiliad i'r Farchnad Cyflenwi Ynni a ddechreuodd ym mis Chwefror eleni.

Mae'r canfyddiadau'n cadarnhau nad yw rhai o'r defnyddwyr mwyaf agored i niwed yn elwa ar fanteision llawn cystadleuaeth yn y sector cyflenwi ynni – mae hefyd yn debygol bod llawer o'r defnyddwyr hyn yn byw mewn tlodi tanwydd. Mae'r rhain yn cynnwys pobl hyn; grwpiau incwm isel; cwsmeriaid mesuryddion rhagdalu; a chwsmeriaid cefn gwlad.

Amlygodd yr adroddiad enghreifftiau penodol o feysydd lle nad yw'r farchnad yn gweithio er budd y defnyddwyr hyn:-

Mae cwsmeriaid nad ydynt wedi newid cyflenwr ond sydd wedi aros gyda'u cyflenwyr trydan lleol blaenorol yn dioddef mwy gan orfod talu prisiau uwch yn eu hardal;

Yn ogystal â hyn, nid yw'r rheiny nad ydynt wedi newid cyflenwr, neu gwsmeriaid nad ydynt yn rhan o rwydwaith y prif gyflenwad nwy, yn gallu manteisio ar ostyngiadau tanwydd deuol;

Mae rhai pobl yn newid i gynigion drutach yn bennaf oherwydd nad yw'r holl wybodaeth angenrheidiol ar gael iddynt i wneud penderfyniad cytbwys;

Nid yw pobl nad oes ganddynt fynediad at y rhyngrwyd yn gallu cymharu cynigion yn rhwydd nac yn gallu elwa ar y bargeinion rhataf ar-lein – mae'r farchnad ar-lein yn arbennig o gystadleuol gyda chynigion sy'n cynnwys gostyngiadau helaeth;

Mae pobl nad oes ganddynt gyfrif banc, neu sy'n well ganddynt ddefnyddio arian parod, yn colli'r cyfle i fanteisio ar dariffau debyd uniongyrchol rhatach.

Mae'r materion penodol sy'n wynebu rhai grwpiau yn cynnwys:

Pobl hyn – maent yn fwy tebygol o fod wedi aros gyda'u cyflenwr gwreiddiol, yn fwy tebygol o dalu trwy gredyd safonol ac yn llai tebygol o fod â mynediad at y rhyngrwyd – yn 2007 dim ond 21% o bobl 65 oed a hyn yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd (o'i gymharu â 57% o'r boblogaeth gyfan)[8];

Grwpiau incwm isel - maent yn fwy tebygol na grwpiau eraill i newid cyflenwr o ganlyniad i weithgaredd gwerthu uniongyrchol, yn aml i gynigion drutach; mae nifer anghymesur o uchel ohonynt yn defnyddio mesuryddion rhagdalu; maent yn llai tebygol o fod â chyfrif banc neu mae'n well ganddynt ddefnyddio arian parod; maent yn llai tebygol o fod â mynediad at y rhyngrwyd - yn 2007 dywedodd 43% o'r rheiny o ddosbarth cymdeithasol DE eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd yn bersonol[9];

Cwsmeriaid mesuryddion rhagdalu – ceir tystiolaeth o wahaniaethau mewn prisiau na ellir eu cyfiawnhau a chwsmeriaid yn aml yn newid i gynigion drutach;

Cwsmeriaid cefn gwlad – ni all y rheiny nad ydynt yn rhan o'r grid nwy elwa ar y gorsymiau is ar ostyngiadau nwy neu danwydd deuol; gwaethygir y sefyllfa gan gostau gwresogi uwch (o ganlyniad i ddefnyddio olew domestig, trydan neu LPG).

Nodwyd yn benodol yn yr adroddiad hefyd bod cyfraddau newid cyflenwr yn is yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer trydan. Mae cyfran uchel o gwsmeriaid yn aros gyda'u cyflenwyr gwreiddiol. Er enghraifft, yn ne Cymru mae gan Nwy Prydain a SWALEC (y cwmni trydan lleol blaenorol sydd bellach yn rhan o Scottish and Southern Energy), ran gyfunol o 80% o'r farchnad.

Mae'n debygol bod llawer o resymau dros gyfraddau newid isel – roedd ffyddlondeb i'r brand a'r ffaith fod mwy o ddefnyddwyr yng

Nghymru nad ydynt yn rhan o'r grid nwy yn ddau fater penodol a godwyd yn yr adroddiad. O ganlyniad, gallai mwy o bobl yng Nghymru fod yn talu'r prisiau uwch a godir ar gwsmeriaid yn yr ardal.

Mae adroddiad Ofgem yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd ac mae Llais Defnyddwyr Cymru yn ystyried ein hymateb.

### Argymhellion

Er mwyn lleihau effaith costau ynni cynyddol ar y defnyddwyr mwyaf agored i niwed yng Nghymru y gaeaf hwn, mae angen gweithredu pendant ac ar unwaith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU, y diwydiant cyflenwi ynni, y rheoleiddiwr, a sefydliadau eraill y mae eu gweithgareddau'n gysylltiedig â'r agenda hon.

Mae llawer o'r materion sy'n ymwneud â'r agenda tlodi tanwydd wedi'u neilltuo i San Steffan, ac yn amlwg y bydd datblygiadau polisi a chamau gweithredu gan Lywodraeth y DU a chyflenwyr ynni yn effeithio ar ddefnyddwyr yma yng Nghymru.

O ran yr hyn y gellir ei wneud yn benodol yng Nghymru, gallai camau gweithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, gallai datrysiadau eraill hefyd fod yn fwy priodol i fynd i'r afael â'r amgylchiadau penodol sy'n wynebu defnyddwyr yng Nghymru.

Dylai camau gweithredu yn y tymor byr a chanolig gynnwys:

dull mwy penodol o nodi a chyrraedd y rheiny sy'n dioddef tlodi tanwydd (nid dim ond y rhai sydd hawsaf eu cyrraedd neu eu helpu);

sicrhau bod yr arian cyfyngedig sydd ar gael dan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) yn cael ei dargedu at aelwydydd sy'n dioddef tlodi tanwydd;

cydgysylltu gwasanaethau cynghori a gwasanaethau cymorth eraill yn well;

pecyn o gamau i helpu'r rheiny sy'n profi tlodi tanwydd sy'n cynnwys sicrhau bod yr aelwyd yn talu'r tariff isaf posib sydd ar gael gan eu cyflenwr yn seiliedig ar eu hamgylchiadau – yn ogystal â chamau effeithlonrwydd ynni a rhaglenni i sicrhau'r incwm mwyaf posib;

mynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig (yn enwedig y rhai sy'n dibynnu ar olew domestig ac LPG);

gwaith mwy unedig ar draws gwahanol bortffolios Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ar lefel leol (yn enwedig o ran cynhwysiant ariannol; tlodi plant; materion pobl hyn; iechyd y cyhoedd);

sicrhau bod defnyddwyr yng Nghymru yn elwa o'r arian sydd ar gael dan y cynllun Targed Gostwng Allyriadau Carbon (CERT).

### Lindsey Kearton – 16 Hydref 2008

Nodiadau:

Mae Llais Defnyddwyr Cymru yn sefydliad newydd a grëwyd trwy gyfuno Cyngor Defnyddwyr Cymru, Golwg ar Ynni Cymru a Golwg ar Bost Cymru. Mae'n rhan ddatganoledig o sefydliad Llais Defnyddwyr y DU, sy'n ymwneud â phob agwedd ar les defnyddwyr yn y DU.

Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2004

'Targeting energy efficiency resources in Wales', Baker W a Preston I, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006)

'Welsh household electricity prices: a paper for energywatch Wales', Cornwall Energy (Ebrill 2008)

Tlodi Tanwydd yng Nghymru, 2004: Ystadegau Pennawd Tlodi Tanwydd wedi'u Modelu ar gyfer 2005 a 2006', Llywodraeth Cynulliad Cymru (Medi 2007)

'More seeking help with mortgage and fuel arrears', datganiad i'r wasg Cyngor ar Bopeth 10 Hydref 2008

Cadw'r fflam ynghyn: tlodi tanwydd yng Nghymru', Cyngor Defnyddwyr Cymru (Medi 2008)

Defnyddwyr a TGCh', Cyngor Defnyddwyr Cymru, Hydref 2007

Fel yr uchod.